Ysgol Bod Alaw, Abergele Road, Colwyn Bay, Conwy, LL29 7ST
01492 530420 | swyddfa@bodalaw.conwy.sch.uk | www.ysgolbodalaw.org | @Ysgolbodalaw
Pennaeth: Mr Dafydd Rhys | Dirprwy Bennaeth: Mrs Elin V Hutchinson / Mrs Sam Kendall

09/11/2023

Annwyl Deulu,

Ar hyn o bryd rydym yn ceisio addasu ardal ein Hysgol Goedwig i roi'r cyfleoedd a'r profiadau gorau posib i bob plentyn.
Mae Ysgol Goedwig yn broses ddysgu ysbrydoledig sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer twf cyfannol trwy sesiynau rheolaidd. Mae'n rhaglen hirdymor sy'n cefnogi chwarae, fforio a chymryd risg gyda chefnogaeth. Mae'n datblygu hyder a hunan-barch trwy brofiadau ymarferol a ysbrydolwyd gan y dysgwr mewn lleoliad naturiol.

I'n galluogi i gwblhau'r sesiynau hyn yn llwyddiannus, byddwn yn ddiolchgar iawn i unrhyw rhieni, gofalwyr, ffrindiau a theulu a fyddai'n fodlon gwirfoddoli a'n helpu i glirio, tacluso, paentio a phlannu yn ein Hysgol Goedwig ac ardaloedd eraill o amgylch yr ysgol.

Rydym yn eich gwahodd felly, i ymuno â ni ar **ddydd Mawrth, 14eg o Dachwedd rhwng 2-4.30yp** er mwyn mynd ati gyda'r clirio a thacluso. Os fydd y tywydd yn ein herbyn e.e. glawio, gwynt cryf, yna ni fyddwn yn parhau gyda'r sesiwn.

Os hoffech chi roi help llaw, cysylltwch â ni drwy SeeSaw, ffonio neu e-bostio'r ysgol os gwelwch yn dda. Os yn bosib, dewch ag offer garddio gyda chi, er enghraifft menyg garddio, loppers, secateurs ac ati. Bydd gennym bethau fel paent, brwshys peintio, compost, blodau a.y.y.b ond os oes gennych bethau dros ben adref, mae croeso mawr i chi ddod a nhw i fewn hefyd!

Bydd gennym ddiodydd oer, paned a rhywbeth i'ch cadw i fynd yn ystod y prynhawn!

Diolch yn fawr iawn,

Mrs Williams
Arweinydd Ysgol Goedwig